



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Steddy Ltd

**Steddy & Associates
Trewsfield
Tondu Road
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4LH**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28 Gorffennaf 2021

28/07/2021

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Steddy Ltd

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Steddy Ltd
Lleoedd cofrestredig	Ddim yn gymwys i Wasanaethau Gofal Cartref
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg a Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae Steddy Ltd yn darparu gofal a chymorth i bobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu mewn pedair ardal bartneriaeth ranbarthol ac mae ei swyddfa ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r gwasanaeth yn ardal Gorllewin Cymru ac ardal Castell-nedd Port Talbot. Paul Steddy yw Unigolyn Cyfrifol y gwasanaeth, ac mae rheolwr wedi'i gyflogi sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth o safon dda ac mae ganddo ffocws amlddisgyblaethol cryf. Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a'u perthnasau, yn falch iawn o'r cymorth a ddarperir, gan ddweud bod y staff yn ofalgar, yn gymwynasgar ac yn amyneddgar. Maent yn gyfarwydd iawn ag anghenion a dewisiadau'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Maent yn cael hyfforddiant perthnasol a chefnogaeth dda gan y tîm rheoli, gan ddweud eu bod yn teimlo'n gymwys ac yn fodlon yn eu rolau. Mae'r tîm rheoli yn hawdd mynd ato, yn ymatebol ac yn cyfathrebu'n dda â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu perthnasau a'r staff. Mae polisiau, systemau a phrosesau'r gwasanaeth yn briodol ac yn cyfrannu at ei redeg yn ddidrafferth ac yn gymwys. Darperir gofal a chymorth yn unol â Datganiad o Ddiben y gwasanaeth.

Llesiant

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi hawliau a dewisiadau'r bobl, er mwyn sicrhau y gallant aros mor annibynnol â phosibl, gan wneud pethau sy'n bwysig iddynt a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi mewn cymdeithas. Clywsom adborth cadarnhaol am y gofal y mae'r bobl yn ei gael gan y gwasanaeth, a dibynadwyedd a charedigrwydd y gweithwyr gofal. Mae'r staff yn ystyriol o amgylchiadau, dymuniadau ac urddas yr unigolyn maen nhw'n ei gefnogi, yn ogystal â'i deulu.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys pobl a'u teulu wrth gynllunio eu gofal, ac mae'r cymorth a gânt yn adlewyrchu eu sefyllfa a'u dymuniadau unigol. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol er mwyn sicrhau y gall y bobl gael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae asesiadau risg yn rhan o'r cynlluniau personol; maent yn nodi anghenion penodol y bobl a'r strategaethau i'w hamddiffyn rhag niwed.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag niwed. Mae'r staff yn cael hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn adnabod arwyddion esgeulustod, cam-drin, ac iechyd meddwl neu iechyd corfforol gwael. Maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu a gallant weithredu'n briodol. Gall y bobl deimlo'n ddiogel gyda'r gwasanaeth, a dywedon nhw wrthym, *"I know who is coming" (Rwy'n gwybod pwy sy'n dod)* ac *"the care workers always have a mask on and they wash their hands often"* (mae'r gweithwyr gofal bob amser yn gwisgo eu masgiau ac yn golchi eu dwylo yn aml). Mae mesurau diogelwch a rheoli heintiau priodol ar waith yn y gwasanaeth, ac mae'r gweithwyr gofal yn defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) perthnasol i leihau'r risg o haint.

Mae'r gwasanaeth yn nodi ei fod yn gweithio tuag at y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Mae pum aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg rhugl ar gael yn y gwasanaeth, ond nid oes neb wedi gofyn am gael eu gofal yn Gymraeg eto.

Gofal a Datblygiad

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth o safon dda i'r bobl. Er na allem ymweld â'r bobl yn eu cartrefi o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19, gwnaethom siarad â'r bobl a'u perthnasau dros y ffôn, ac mae eu barn gyffredinol am y gwasanaeth yn gadarnhaol. Maent yn siarad yn gadarnhaol am staff a thîm rheoli'r gwasanaeth, gan ddweud eu bod yn *“very good to me”* (yn dda iawn i mi) ac yn *“always nice and respectful”* (bob amser yn ddymunol ac yn barchus). Clywsom y bobl yn dweud *“the care workers are marvellous”* (mae'r gweithwyr gofal yn wych), *“I can't fault them”* (nid oes gennyf ddim i'w gwyno yn ei gylch) a *“couldn't do without them”* (ni allwn ymdopi hebddynt). Dywedodd y bobl hefyd eu bod yn teimlo'n gyffyrddus ac yn ddiogel yng nghwmni'r staff sy'n darparu'r gofal a'r cymorth. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym fod y gweithwyr gofal yn brydlon ar y cyfan, ac nad ydynt yn rhuthro, a bod ganddynt ddigon o amser i gefnogi'r unigolyn â'i anghenion. Mae'r staff yn tueddu i adnabod y bobl yn dda, maent yn cydnabod newidiadau a dirywiad yn iechyd a llesiant yr unigolyn, ac yn gweithredu'n briodol. Nid yw'r gwasanaeth yn defnyddio gweithwyr asiantaeth, ac mae'r staff yn camu i'r adwy adeg gwyliau a salwch yn y tîm.

Er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth ddarparu'r cymorth gorau, caiff pob unigolyn asesiad cyn derbyn cyn dechrau gyda'r gwasanaeth. Mae hyn yn nodi dymuniadau ac anghenion yr unigolion ac yn helpu i lywio'r cynllun personol, yr amserlen ymweld a chytundeb y gwasanaeth. Mae'r cynlluniau personol yn rhoi darlun gwerthfawr o anghenion yr unigolyn, ei hoff bethau a'r hyn sy'n bwysig iddo. Maent hefyd yn cynnwys asesiadau risg unigol yn nodi anghenion penodol ar gyfer yr unigolyn a'i weithwyr gofal, gan nodi ffyrdd o gadw'r bobl yn ddiogel. Mae cynlluniau ac asesiadau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn ogystal â'u diweddarau pan fydd anghenion yr unigolyn yn newid, neu'n cael eu haddasu er mwyn galluogi canlyniadau gwell.

Mae mesurau a gweithdrefnau rheoli heintiau cyfredol ar waith i gadw'r bobl, eu teuluoedd a'r staff mor ddiogel â phosibl. Mae'r staff yn cael hyfforddiant perthnasol a darperir y PPE priodol iddynt i leihau'r risg o heintiau. Gwnaethant ddweud wrthym fod digon o PPE i'w ddefnyddio bob amser. Mae gan y gwasanaeth bolisiâu, canllawiau a hyfforddiant staff ar gyfer rhoi meddyginiaeth er mwyn sicrhau arferion diogel.

Arwain a Rheoli

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn addas i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Mae ffeiliau'r staff yn dangos bod y gwasanaeth yn dilyn gweithdrefnau recriwtio priodol ac maent yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Nid yw'r staff yn dechrau gweithio gyda'r unigolion hyd nes bod yr holl wiriadau cyn cyflogaeth wedi'u cwblhau. Maer' staff gofal yn meddu ar y cymwysterau perthnasol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff newydd yn ymgymryd â rhaglen sefydlu ac yn cysgodi cydweithwyr mwy profiadol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth o hyfforddiant parhaus i'w staff, ac os oes gan unigolyn anghenion penodol, mae ei weithwyr gofal yn cael y cymorth neu'r hyfforddiant perthnasol. Mae'r staff yn siarad yn gadarnhaol iawn am eu hyfforddiant, gan ddweud eu bod yn teimlo'n gymwys ac yn gyfforddus yn eu rolau. Mae'r tîm rheoli hefyd yn annog ac yn cefnogi'r staff i weithio tuag at gofrestru a chymwysterau.

Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwyllo a hapwiriadau rheolaidd i nodi'r cymorth y gallai fod ei angen arnynt, trafod unrhyw faterion a myfyrio ar eu perfformiad. Maent yn dweud bod y tîm rheoli'n gefnogol, yn hawdd mynd ato, ac maent yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Dywedodd y staff wrthym *“this service is great to work for”* (mae'r gwasanaeth hwn yn un gwybodaeth i weithio iddo), *“management looks after us”* (mae'r tîm rheoli yn gofalu amdano) a *“they are only a phone call away”* (mae ar ben arall y ffôn).

Mae'r tîm rheoli yn cynnal cyfarfodydd amrywiol gyda'r gweithwyr gofal, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, trafod materion, ac annog adborth a syniadau ar gyfer gwella. Hefyd, mae dulliau cyfathrebu anffurfiol a chefnogol da yn y tîm, a chyda'r tîm rheoli.

Mae polisïau ar waith, gan gynnwys ar gyfer cwynion, digwyddiadau, meddyginiaeth a diogelwch, a chânt eu diweddarau. Mae adran weinyddol y gwasanaeth wedi'i gosod allan yn dda ac yn drefnus, fel y gallem ei weld o'r amrywiaeth o adroddiadau a dogfennau perthnasol. Mae archwiliadau'n rheolaidd ac yn berthnasol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o redeg y gwasanaeth, mae'n goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda, ac mae'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion rheoliadol ei rôl. Mae'r trefniadau sefydlog ar gyfer llywodraethu, archwilio a sicrhau ansawdd yn helpu'r gwasanaeth i redeg yn dda a darparu gofal da. Mae'r systemau hyn hefyd yn galluogi'r gwasanaeth i hunanwerthuso a nodi'r meysydd i'w gwella a datblygu.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i'r bobl a'u cynrychiolwyr ofyn cwestiynau a rhoi adborth. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'r cyhoedd, gyda Datganiad o Ddiben manwl yn nodi nodau a gwerthoedd y gwasanaeth, a'r gofal a ddarperir yno. Mae canllaw ysgrifenedig ar gael i'r unigolion a'u teuluoedd, sy'n cynnwys gwybodaeth ymarferol am y gwasanaeth, y gofal a'r cymorth a ddarperir, a'r cymorth eirioli sydd ar gael.

**Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny.
Wedi'i gyflawni**

**Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny.
Heb ei gyflawni**

Dim	
-----	--

Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth

Dim	
-----	--

Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau

Dim	
-----	--

Dyddiad Cyhoeddi 09/09/2021